

# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Gynradd Pontyberem

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2023

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae arweinyddiaeth yr ysgol yn gadarn ac effeithiol, ac yn parchu cyfraniad pob un sy'n ymwneud â hi. O ganlyniad, mae'r ysgol yn un gynhwysol lle mae arweinwyr a staff yn hyrwyddo perthnasoedd iach yn dda, gyda phwyslais penodol ar sicrhau cydraddoldeb, cyfle cyfartal a thegwch i bob unigolyn o fewn ei chymuned. Maent yn parchu cyfraniad pob disgybl i fywyd a gwaith yr ysgol ac yn rhoi gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod bob un mewn lle emosiynol da i'w galluogi i ddysgu. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel o fewn cymuned ofalgar a chynhwysol yr ysgol.

Darperir cwricwlwm eang a chytbwys i'r disgyblion sy'n adeiladu ar eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau yn effeithiol. Mae'r ddarpariaeth yn gyffrous ac yn rhoi cyfle i'r disgyblion ddysgu am eu hardal leol, am Gymru ac am fannau pellach. Mae hyn yn codi eu hymwybyddiaeth o'u lle mewn cymdeithas a phwysigrwydd bod yn ddinasyddion cyfrifol a chydwybodol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol iawn tuag at eu dysgu, yn awyddus i fanteisio ar yr ystod gyfoethog o brofiadau dysgu ac yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Rhoddir llais cryf i'r disgyblion gyfrannu at yr hyn maent am ei ddysgu. Maent yn hapus iawn am hyn ac yn arbennig am y cyfleoedd a gânt i drefnu gweithgareddau diddorol sy'n ychwanegu at gyfoeth y cwricwlwm ac sy'n aml yn rhoi ffocws clir ar gefnogi gweithgareddau dyngarol.

Rhoddir cyfleoedd cyson a gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn chwaraeon, gweithgareddau, perfformiadau a digwyddiadau fel eisteddfodau a chyngherddau sy'n fodd i feithrin eu hunanhyder a'u gallu corfforol, mynegiannol a chreadigol.

Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn ac yn diwallu anghenion gwahanol grwpiau yn feistrolgar, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, eraill sydd â heriau o ran ymddygiad ac eraill sy'n fregus. Mae disgwyliadau'r rhan fwyaf o athrawon yn uchel iawn, ac mae trefniadau dosbarth, ar y cyfan, yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r arfer hon yn gyson nac yn ddigon effeithiol ar draws yr ysgol. Er bod yr ysgol yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda, nid yw'r strategaethau i alluogi lleiafrif y disgyblion i ddarllen gyda rhuglder nac i fwynhau darllen wedi datblygu'n ddigon cyson.

# Argymhellion

**A1 Sicrhau bod gan yr holl athrawon a staff ategol ddisgwyliadau sy'n gyson uchel a threfniadaeth dosbarth effeithiol**

**A2 Sicrhau bod gweithdrefnau hybu medrau a mwynhad disgyblion wrth ddarllen yn eang ac yn gyson effeithiol ar draws yr ysgol**

## Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**

**Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar sut mae'r ysgol yn diwallu anghenion lles emosiynol disgyblion er mwyn sicrhau eu bod mewn lle da i ddysgu.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Pontyberem |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Ddim yn ysgol enwadol |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 230 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 198 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | Dim |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 15.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 13.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 50.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/01/2022 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/11/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolydiad | 13/03/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/05/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.